

Dyddiad cyhoeddi: 31 Awst 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Atebion i'ch Cwestiynau

- 1. A fydd gennych chi Gardiau o hyd ar eich trenau Dosbarth 197, 230, 231, 398 a 756 newydd, neu a fydd y rhain yn gweithredu ar sail Gyrrwr yn Unig?**

A: Rydym ni wedi ymrwmo i gadw ail unigolyn sy'n hanfodol i ddiogelwch ar yr holl wasanaethau sy'n cael eu gweithredu gan Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Mae rhagor o fanylion am yr ymrwymiad ar gael yn y llythyr sydd ynghlwm a gyhoeddwyd gan gyn Brif Weinidog Cymru cyn caffael masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

- 2. Os mai Bydd yw'r ateb i C1, a fydd y Gardiau yn dal i fod yn gyfrifol am agor (rhyddhau) y drysau ar y trenau hyn, neu a fydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Gyrrwr?**
- 3. Os mai Bydd yw'r ateb i C1, a fydd y Gardiau yn dal i fod yn gyfrifol am gau (cloi) y drysau ar y trenau hyn, neu a fydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Gyrrwr?**
- 4. Os mai Bydd yw'r ateb i C1, a wnewch chi roi gwybod i mi a fydd gan y trenau hyn baneli rheoli drysau yn y cabiau i'r Gardiau eu defnyddio?**
- 5. Os mai Bydd yw'r ateb i C1, a wnewch chi roi gwybod i mi a fydd gan y trenau hyn baneli rheoli drysau ar y drysau salwn i deithwyr i'r Gardiau eu defnyddio, ac os felly, a fydd panel wrth yr holl ddrysau i deithwyr neu dim ond ar rai drysau yn unig?**
- 6. Os mai Bydd yw'r ateb i C1, a wnewch chi roi gwybod i mi a fydd unrhyw beth arall yn newid o ran rôl y Gard ar y trenau hyn o'i gymharu â'ch rhai presennol, ac os felly, rhowch wybod yn union beth fydd yn newid?**

A: (Mewn ymateb i Gwestiynau 2-6) Mae'r union fanylion am y dull gweithredu drysau ar ein cerbydau newydd yn destun trafodaeth â'n partneriaid yn yr Undebau Llafur ac ni ddaethpwyd i benderfyniad terfynol eto. Rydym wedi ymrwmo o hyd i rôl ail berson hanfodol i ddiogelwch ar bob gwasanaeth.

- 7. Os mai Na yw'r ateb i C1, ai dim ond y trenau hyn fydd yn gweithredu ar sail Gyrrwr yn Unig, neu a ydych chi'n bwriadu newid eich trenau presennol yn drenau Gyrrwr yn Unig hefyd?**

A: Does dim cynlluniau i newid trenau i fod yn drenau Gyrrwr yn Unig, ac rydym wedi ymrwmo o hyd i gadw ail berson hanfodol i ddiogelwch ar bob trê.

- 8. Os mai Na yw'r ateb i C1, a wnewch chi ddarparu'r holl ddogfennau asesu risg i mi mewn perthynas â diogelwch trenau Gyrrwr yn Unig a'r holl ymgynghoriadau a chyfathrebu a fu ynghylch hyn rhyngoch chi a gyrwyr, gardiau, teithwyr, undebau ac ati.**

A: Gan fod trafodaethau â'n partneriaid yn yr Undebau Llafur yn parhau o hyd, nid yw TrC yn cadw'r wybodaeth hon.

Rydyn ni wedi atodi llythyr oddi wrth y cyn Brif Weinidog, Carwyn Jones, at yr Undebau Llafur dros y Rheilffyrdd (ASLEF, TSSA, RMT ac Unite) dyddiedig 28 Medi 2017 i ategu ein hymateb. Sylwch hefyd fod y Diwydiant Rheilffyrdd yn gweithredu o dan Reoliadau Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Tywysedig Eraill (Diogelwch) 2006 (ROGS) ac o'r herwydd, rhaid cytuno ar yr holl weithgareddau sy'n hanfodol ai ddiogelwch gyda'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR) fel rhan o'n hawdurdodiad diogelwch i sicrhau bod diogelwch yn cael ei reoli'n briodol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwvodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".